

Y Gyfres Gynllunio: 6 - Apeliadau

Hydref 2019



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6328**

E-bost: **Senedd.Research@Senedd.Wales**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Gyfres Gynllunio:

6 - Apeliadau

Hydref 2019

Awduron:

Elfyn Henderson ac Andrew Minnis

Trosolwg o'r papur:

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r broses o ran apeliadau cynllunio. Mae'n disgrifio ar ba sail y gellir gwneud apêl, yn nodi'r broses o ystyried apeliadau a beth y gellir ei wneud os yw apêl yn aflwyddiannus.



Cynnwys

1. Ar ba seiliau y gellir gwneud apêl gynllunio?	1
2. At bwy y gwneir apêl?	2
3. Beth yw'r weithdrefn ysgrifenedig?	2
4. Beth yw gwrandawriad cyhoeddus?	3
5. Beth yw ymchwiliad cyhoeddus?	3
6. Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol?	4
7. A oes unrhyw hawl pellach i apelio?	4
8. Ffynonellau allweddol	5

1. Ar ba seiliau y gellir gwneud apêl gynllunio?

Gall ymgeiswyr apelio ar amrywiaeth o seiliau. Mae'r rhain yn cynnwys, pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi:

- Gwrthod caniatâd cynllunio;
- Wedi rhoi caniatâd cynllunio ond wedi gosod amodau;
- Wedi methu â phenderfynu ynghylch cais o fewn yr amser a ganiateir; a
- Gofyn am ragor o wybodaeth cyn y gellid penderfynu ar gais cynllunio amlinellol.

Mae hefyd yn bosibl apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch gorfodi.

Nid oes hawl i bartïon eraill sydd â diddordeb (a elwir yn drydydd partïon) apelio yn erbyn penderfyniad cynllunio.

Yn gyffredinol, rhaid cyflwyno unrhyw apeliadau cyn pen chwe mis ar ôl y camau sy'n cael eu herio.

Rhaid i apêl gynllunio gael ei gwneud ar seiliau cynllunio dilys. Yr ystyriaeth bwysicaf fydd, i ba raddau y mae'r cynnig datblygu yn cyd-fynd â chynllun datblygu'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) ac unrhyw bolisiâu cynllunio cenedlaethol perthnasol. Bydd yr Arolygydd yn barnu'r apêl yn ôl ei rhinweddau cynllunio. Mae'n annhebygol y bydd amgylchiadau personol ymgeisydd yn drech nag unrhyw ystyriaethau cynllunio sylweddol.

Fel rheol, telir costau gan yr apelydd a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, gall y naill barti neu'r llall ofyn i'r parti sy'n gwrthwynebu dalu eu costau os gallant ddangos bod ymddygiad afresymol wedi digwydd.

Os yw pwyllgor cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gwrthod cais yn groes i gyngor swyddogion, rhaid iddynt roi eu rhesymau. Os na ellir nodi rhesymau cynllunio dilys dros y penderfyniad, gellir gwrthdroi'r penderfyniad ar apêl, gyda dyfarniad bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn talu'r costau.

Cyn apelio, dylai'r ymgeisydd drafod gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a fyddai unrhyw newidiadau i'w gais gwreiddiol yn ei wneud yn fwy tebygol o gael caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion gellir gwneud cais arall am ddim.

2. At bwy y gwneir apêl?

Fel rheol, mae apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio a wneir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael eu trin gan **yr Arolygiaeth Cynllunio**, ar ran Gweinidogion Cymru. Asiantaeth Llywodraeth Cymru yw'r Arolygiaeth a'i phrif waith yw prosesu apeliadau cynllunio ac apeliadau gorfodi a chynnal ymchwiliadau i Gynlluniau Datblygu Lleol.

Gall Llywodraeth Cymru 'adfer' unrhyw apêl y mae'r Arolygiaeth yn ymdrin â hi, a chymryd y cyfrifoldeb am wneud penderfyniad. Neilltuir y pwerau hyn fel arfer ar gyfer apeliadau sy'n ymwneud â chynlluniau mawr, fel datblygiadau manwerthu neu ddatblygiadau tai mawr.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd "alw i mewn" gais cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn iddo gael ei benderfynu (gweler ein **papur briffio ar wahân ar alw ceisiadau cynllunio i mewn** i gael rhagor o fanylion). Mewn achosion o'r fath mae cais yn cael ei ystyried gan yr Arolygiaeth Cynllunio yn yr un modd ag apêl cynllunio, a byddai'r Gweinidog yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Mae tair gweithdrefn statudol y gellir eu harfer i wrando ar apeliadau; sef gweithdrefn ysgrifenedig, gwrandawriad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus.

3. Beth yw'r weithdrefn ysgrifenedig?

Dyma'r dull cyflymaf ac fe'i defnyddir ar gyfer **mwyafrif na saith deg pump y cant o apeliadau**. Mae'r Arolygiaeth Cynllunio yn penodi Arolygydd i wrando ar yr apêl a gosod dyddiad cychwyn. Cyflwynir gwybodaeth ategol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr apelydd ac unrhyw bartion â diddordeb. Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r apelydd weld gwybodaeth y naill a'r llall a rhoi sylwadau arnynt, ond nid oes cyfle i groesholi. Yna bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle. Mae amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wybodaeth gael ei chyflwyno cyn pen naw wythnos o'r dyddiad cychwyn.

4. Beth yw gwrandawriad cyhoeddus?

Os nad yw'r naill barti neu'r llall yn dymuno defnyddio'r weithdrefn ysgrifenedig, cynhelir gwrandawriad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus. Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n penderfynu a yw gwrandawriad neu ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mae gwrandawriad yn drafodaeth agored dan arweiniad yr Arolygydd ac mae'n tueddu i gael ei ddefnyddio ar gyfer apeliadau sy'n gymharol syml ac annadleuol. Cyn y gwrandawriad, caiff gwybodaeth ategol ei chyfnewid a rhoddir sylwadau arni fel y gwneir gyda'r weithdrefn ysgrifenedig.

Yn y gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn arwain trafodaeth anffurfiol ar y materion o bwys ac fel arfer cynhelir ymweliad â'r safle. Mae amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawriad gael ei gynnal cyn pen deuddeg wythnos o'r dyddiad cychwyn.

5. Beth yw ymchwiliad cyhoeddus?

Os nad yw'r naill barti neu'r llall yn dymuno defnyddio'r weithdrefn ysgrifenedig, a bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu bod gwrandawriad cyhoeddus yn anaddas, cynhelir Ymchwiliad. Mae ymchwiliadau'n tueddu i gael eu defnyddio ar gyfer y cynlluniau mwyaf a mwyaf cymhleth. Cyn cynnal ymchwiliad, caiff gwybodaeth ategol ei chyfnewid a rhoddir sylwadau arni fel gyda'r weithdrefn ysgrifenedig. Cyflwynir y canlynol hefyd bedair wythnos cyn i'r ymchwiliad ddechrau:

- Datganiadau ysgrifenedig sydd i'w darllen yn yr Ymchwiliad. Gall y parti arall edrych ar y rhain; a
- Datganiad o ran tir cyffredin sy'n amlinellu ble mae cytundeb rhwng y partïon, fel maint y safle dan sylw.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i leoliad a dyddiad yr Ymchwiliad, a bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl cyn yr Ymchwiliad fel arfer. Gall pob parti ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel arfer yn cyflwyno ei achos yn gyntaf, cyn galw tystion. Yna gall yr Arolygydd a'r apelydd ofyn cwestiynau. Yna mae'r apelydd yn cyflwyno ei achos, ac yn galw tystion, cyn cael ei holi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Arolygydd. Fel rheol, caiff partïon eraill sydd â diddordeb gyfle i fynegi eu barn. Gall yr Arolygydd ganiatáu i'r partïon hyn gael eu holi, a holi'r apelydd a / neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae gan y ddau brif barti yn yr apêl yr hawl i wneud datganiad cloi. Mae amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymchwiliad gael ei gynnal cyn pen ugain wythnos o'r dyddiad cychwyn ar gyfer ymchwiliadau y mae'r Arolygydd yn gwneud penderfyniad arnynt.

6. Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol?

Waeth beth fo'r weithdrefn a ddilynir, bydd yr Arolygydd yn ystyried y dystiolaeth cyn penderfynu a ddylid 'caniatáu' neu 'wrthod' yr apêl. Yr unig eithriadau i hyn yw apeliadau ar gyfer cynlluniau datblygu mawr (a elwir yn apeliadau 'wedi'u hadennill') lle mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu ymyrryd yn uniongyrchol, ac y mae Gweinidogion Cymru wedyn yn gwneud penderfyniad yn eu cylch. Mewn achosion o'r fath bydd yr Arolygydd yn ystyried yr achos ac yn gwneud argymhelliad, er nad oes yn rhaid i'r Gweinidog dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mewn apêl yn erbyn amodau sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio, gall yr Arolygydd amrywio'r amodau sydd wedi'u gosod gan Awdurdod Cynllunio Lleol neu osod amodau newydd. Nodir penderfyniad terfynol yr Arolygydd mewn llythyr. Bydd hwn yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn disodli'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae penderfyniad yr Arolygydd yn derfynol a dim ond ar bwynt cyfreithiol (a elwir yn 'adolygiad barnwrol') yn yr Uchel Lys y gellir ei herio.

7. A oes unrhyw hawl pellach i apelio?

Ar ôl i Arolygydd neu Weinidogion Cymru benderfynu arno, dim ond yn yr Uchel Lys y gellir herio penderfyniad apêl, a hynny drwy **Adolygiad Barnwrol**. Rhaid cyflwyno her o'r fath cyn pen chwe wythnos ar ôl y penderfyniad. Dim ond os gellir dangos bod y sawl sy'n penderfynu wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau, nad oedd ef / hi wedi dilyn y gweithdrefnau cywir, ei fod wedi gweithredu'n afresymol, neu ei fod wedi torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y bydd hyn yn llwyddo.

Mae'r Llys yn canolbwyntio ar y broses a ddilynnir yn unig, nid ar a yw'r casgliad yn gywir ai peidio, ac ni fydd yn cyflwyno penderfyniad amgen. Yn hytrach, os bydd penderfyniad yn cael ei wyrddroi, anfonir yr apêl yn ôl at yr Arolygiaeth Gynllunio i'w hailystyried.

8. Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru

Mae'r **adran ar gynllunio** ar wefan Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth sy'n cynnwys:

- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018)**
- **Cylchlythyr Cynllunio 07/2003 Gweithdrefnau ar gyfer apeliadau cynllunio (ac apeliadau tebyg) a galw ceisiadau i mewn;**
- **Arweiniad ar apeliadau cynllunio;**
- **Apeliadau'r Arolygiaeth Gynllunio: faint o amser maent yn ei gymryd (canllaw)**

Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cyngori, gan gynnwys gwasanaeth llinell gymorth.

Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys ond yn berthnasol i Loegr.

Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

Mae briffiau cynllunio eraill a gynhyrchir gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd ar gael ar **wefan Ymchwil y Senedd**, ac ar ein blog: **Pigion / Cynllunio**.